

Pennod II

Y CORFF LLYWODRAETHOL

THE GOVERNING BODY

Chapter II

Rhifyn / Issue 1
14 Ebrill / April 2010

Pennod II
Y CORFF LLYWODRAETHOL

Chapter II
THE GOVERNING BODY

PENNOD II:

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Rhan I: Aelodaeth

- 1
- 2
- 3
- 4

Rhan II: Cymwysterau Aelodaeth

- 5
- 6
- 7
- 8

Rhan III: Cyfarfodydd

- 9
- 10

Rhan IV: Galluoedd

- 11 Y Cyfansoddiad
- 12 Galluoedd Cyffredinol
- 13
- 14 Materion yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol
- 15
- 16
- 17
- 18
- 19
- 20 Materion yn ymwneud â Chorff y Cynrychiolwyr
- 21 Materion yn ymwneud â'r Gynhadledd Esgobaethol
- 22
- 23
- 24 Galluoedd amrywiol
- 25
- 26

Rhan V: Gweithdrefn Bil

- 27 Cyflwyno bil
- 28 Cyhoeddi ac ystyried bil
- 29
- 30
- 31
- 32

**CHAPTER II:
THE GOVERNING BODY**

Part I: Composition

- 1
- 2
- 3
- 4

Part II: Qualification for Membership

- 5
- 6
- 7
- 8

Part III: Meetings

- 9
- 10

Part IV: Powers

- 11 The Constitution
- 12 General powers
- 13
- 14 Matters relating to the Governing Body
- 15
- 16
- 17
- 18
- 19
- 20 Matters relating to the Representative Body
- 21 Matters relating to the Diocesan Conference
- 22
- 23
- 24 Miscellaneous powers
- 25
- 26

Part V: Bill Procedure

- 27 Introduction of a bill
- 28 Publication and consideration of a bill
- 29
- 30
- 31
- 32

Rhan VI:	Cynigion	
	33	Darpariaethau ynglŷn â chynigiadau (ar wahân i'r rhai y mae a wnelont â biliau)
	34	
Rhan VII:	Gweithdrefn i lunio Rheoliadau a dod â hwy i rym	
	35	
Rhan VIII:	Cyffredinol	
	36	Cadw galluoedd yr Archesgob a'r Esgobion Cadeiriol
	37	

Part VI: Motions
33 Provisions relating to motions (other than those relating to bills)
34

Part VII: Procedure for the making and coming into force of Regulations
35

Part VIII: General
36 Saving of powers of the Archbishop and the Diocesan Bishops
37

Pennod II

Y CORFF LLYWODRAETHOL

Rhan I: Aelodaeth

1.

Bydd i'r Corff Llywodraethol dair Urdd, sef: yr Esgobion, y Clerigion, a'r Lleygion.

2.

Aelodau Urdd yr Esgobion fydd yr Archesgob ac Esgobion Cadeiriol yr Eglwys yng Nghymru. Bydd ganddynt yr hawl i gyfarfod ar wahân i drafod yn gyfrinachol a phenderfynu cyn pleidleisio fel Urdd.

3.

Aelodau Urdd y Clerigion fydd:

- (a) unrhyw esgob sy'n dal trwydded Esgob Cynorthwyol oddi wrth yr holl Esgobion Cadeiriol; bydd yn pleidleisio gydag Urdd y Clerigion ond yn ymuno ag Urdd yr Esgobion ar gyfer trafodaethau preifat;
- (b) Deoniaid tair o Eglwysi Cadeiriol yr Eglwys yng Nghymru wedi eu hethol yn uno â Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol;
- (c) un Archddiacon o bob Esgobaeth yn yr Eglwys yng Nghymru wedi ei enwebu gan Esgob yr Esgobaeth ar ôl ymgynghori â holl archddiaconiaid yr Esgobaeth;
- (d) yr aelodau yn rhinwedd swydd hynny sy'n glerigion ac y crybwyllir eu swyddi yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol;
- (e) chwe aelod clerigol etholedig o bob Esgobaeth, wedi eu hethol gan aelodau clerigol Cynhadledd yr Esgobaeth, fel y darperir yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol ; a'r
- (f) clerigion hynny a gyfetholir gan y Corff Llywodraethol fel y darperir yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol.

Chapter II

THE GOVERNING BODY

Part I: Composition

1.

The Governing Body shall consist of three Orders, namely: the Bishops, the Clergy, and the Laity.

2.

The Order of the Bishops shall consist of the Archbishop and the other Diocesan Bishops of the Church in Wales. They shall have the right to meet for private debate and decision before voting as an Order.

3.

The Order of the Clergy shall consist of:

- (a) any bishop who holds a licence as an Assistant Bishop from all the Diocesan Bishops, who shall vote with the Order of the Clergy but shall retire with the Order of the Bishops for private debate;
- (b) the Deans of three of the Cathedrals of the Church in Wales elected as provided in Part I of the Regulations relating to the Governing Body;
- (c) one Archdeacon from each Diocese nominated by the Diocesan Bishop after consultation with all the Archdeacons in the Diocese;
- (d) such of the ex-officio members, whose offices are set out in Part I of the Regulations relating to the Governing Body, as shall be clerics;
- (e) six elected clerical members for each Diocese, elected by the clerical members of the Diocesan Conference, as provided in Part I of the Regulations relating to the Governing Body; and
- (f) the clerics co-opted by the Governing Body as provided in Part I of the Regulations relating to the Governing Body.

4.

Aelodau Urdd y Lleygwyr fydd:

- (a) yr aelodau lleyg yn rhinwedd swydd hynny y crybwyllir eu swyddi yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol;
- (b) deuddeg aelod lleyg etholedig o bob Esgobaeth, wedi'u hethol gan aelodau lleyg Cynhadledd yr Esgobaeth fel y darperir yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol; a'r
- (c) aelodau lleyg hynny a gyfetholir gan y Corff Llywodraethol fel y darperir yn Rhan I y Rheoliadau yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol.

Rhan II: Cymwysterau Aelodaeth

5.

(1) Yn ddarostyngedig i isadran (2) a (3), bydd pob Clerig sy'n dal anrhydedd, penodiad eglwys gadeiriol, bywoliaeth neu swydd yn yr Eglwys yng Nghymru, neu drwydded oddi wrth Esgob Cadeiriol yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

(2) Ni fydd unrhyw Glerig sydd yng ngwasanaeth cyflogedig llawn-amser Corff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid Esgobaeth nac unrhyw gorff taleithiol nac esgobaethol arall o'r fath yn yr Eglwys yng Nghymru yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol nac o unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau.

(3) Ni fydd unrhyw glerig sydd wedi ymddeol neu sydd wedi cyrraedd ei b/phen-blwydd yn ddeg a thrigain oed yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

6.

(1) Yn ddarostyngedig i is-adran (2) a (3), bydd pob Cymunwr lleyg sydd dros ddeunaw mlwydd oed ac sydd naill ai yn byw, neu wedi byw ar unrhyw adeg am gyfnod o ddeuddeng mis, mewn plwyf sydd yng Nghymru, neu sydd â'i enw ar rôl etholwyr unrhyw blwyf yng Nghymru ac nad yw'n perthyn i unrhyw gorff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru, yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

(2) Ni fydd unrhyw weithiwr cyflogedig gan Gorff y Cynrychiolwyr, Bwrdd Cyllid Esgobaeth nac unrhyw gorff taleithiol nac esgobaethol arall o'r fath yn yr Eglwys yng Nghymru yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol nac o unrhyw un o'i bwyllgorau na'i is-bwyllgorau.

(3) Ni fydd unrhyw gymunwr lleyg sydd wedi cyrraedd ei b/phen-blwydd yn bymtheg a thrigain oed yn gymwys i fod yn aelod o'r Corff Llywodraethol.

4.

The Order of the Laity shall consist of:

- (a) the *ex-officio* lay members, whose offices are set out in Part I of the Regulations relating to the Governing Body;
- (b) twelve elected lay members for each Diocese, elected by the lay members of the Diocesan Conference, as provided in Part I of the Regulations relating to the Governing Body; and
- (c) lay members co-opted by the Governing Body as provided in Part I of the Regulations relating to the Governing Body.

Part II: Qualification for Membership

5.

- (1) Subject to subsections (2) and (3), every Cleric who holds a dignity, cathedral preferment, benefice or office within the Church in Wales, or a licence from a Diocesan Bishop, shall be qualified to be a member of the Governing Body.
- (2) No Cleric in the full time salaried employment of the Representative Body, a Diocesan Board of Finance or any other such provincial or diocesan body within the Church in Wales shall be eligible to be a member of the Governing Body or any committee or sub- committee thereof.
- (3) No Cleric who has retired or who has reached his or her seventieth birthday shall be qualified to be a member of the Governing Body.

6.

- (1) Subject to subsections (2) and (3), every lay Communicant who is over eighteen years of age and who either resides or has resided at any time for a period of twelve months in a parish which is in Wales or whose name appears in the electoral roll of any parish in Wales and who does not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales, shall be qualified to be a member of the Governing Body.
- (2) No salaried employee of the Representative Body, a Diocesan Board of Finance or any other such provincial or diocesan body within the Church in Wales shall be eligible to be a member of the Governing Body or any committee or sub-committee thereof.
- (3) No Lay communicant who has reached his or her seventy fifth birthday shall be qualified to be a member of the Governing Body.

7.

Bydd pob aelod o Urdd y Lleygwyr, cyn cymryd ei sedd, yn arwyddo datganiad mewn cofrestr a gedwir at hynny gan Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, yn y ffurf hon:

Yr wyf fi, J ... S ... o ... trwy hyn yn difrifol ddatgan fy mod yn Gymunwr dros ddeunaw mlwydd oed, ac yn gymwys i fod yn aelod o Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru, ac nad wyf yn aelod o'r un corff crefyddol nad yw mewn cymundeb â'r Eglwys yng Nghymru.

8.

Bydd pob aelod sy'n ymddeol yn agored i fod yn aelod eto os yw'n gymwys ym mhopeth arall.

Rhan III: Meetings

9.

Yr Archesgob fydd Llywydd y Corff Llywodraethol a chyfeirir ato o hyn allan fel y Llywydd. Os digwydd ar ryw adeg nad oes Archesgob, neu fod yr Archesgob yn absennol o'r Ynysoedd Prydeinig neu'n methu neu'n gwrthod gweithredu, bydd y blaenaf ymhlith Esgobion Cadeiriol yr Eglwys yng Nghymru sy'n fodlon gweithredu ac yn gallu gweithredu, a heb fod ar y pryd yn absennol o'r Ynysoedd Prydeinig, yn dod yn Llywydd y Corff Llywodraethol, ac ef fydd ei Lywydd.

10.

Nid annilysir unrhyw gyfarfod trwy fethiant damweiniol i gadw unrhyw un o'r Rheoliadau yn ymwneud â gwysio neu gynnal cyfarfod o'r fath, ac ni bydd absenoldeb nac esgeulustod unrhyw un o Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol yn annilysu unrhyw weithred o'r eiddo Ysgrifennydd arall neu Ysgrifenyddion eraill nac o'r eiddo unrhyw gyfarfod a awdurdodir trwy hynyma; ac mewn cyfarfod o'r fath, yn absenoldeb holl Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol, bydd y cyfarfod yn ethol dirprwy Ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfod hwnnw, a bydd yntau yn rhoi adroddiad llawn a ffyddlon i'r Ysgrifenyddion.

7.

Every member of the Order of the Laity, before taking his or her seat, shall sign a declaration in the following form in a register to be kept for the purpose by the Secretaries of the Governing Body:

I, J...S...of..., do hereby solemnly declare that I am a Communicant over eighteen years of age and qualified to be a member of the Governing Body of the Church in Wales, and that I do not belong to any religious body which is not in communion with the Church in Wales.

8.

Every retiring member shall be eligible for membership if otherwise duly qualified.

Part III: Meetings

9.

The Archbishop shall be the President of the Governing Body and is hereinafter referred to as the President. If at any time there be no Archbishop, or in case of the Archbishop's incapacity or absence from the British Isles, or refusal to act, the senior Diocesan Bishop, willing to act and capable of acting and not then absent from the British Isles, shall become and be the President of the Governing Body.

10.

No meeting shall be invalidated by any accidental omission to observe any of the Regulations relating to the summoning or holding of such meetings, nor shall the absence or neglect of any of the Secretaries of the Governing Body invalidate any act of the other Secretary or Secretaries or of any meeting herein authorised; and at such meeting in the absence of all the Secretaries of the Governing Body, such meeting shall appoint a deputy secretary for that meeting, who shall render a full and faithful report to the Secretaries.

Rhan IV: Galluoedd

Y Cyfansoddiad

11.

- (1) Yn ddarostyngedig i is-adrannau (2) a (3), bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu:
 - (a) i newid, i ddiwygio, neu i ddiddymu unrhyw ddarpariaeth yn y Cyfansoddiad;
 - (b) i lunio erthyglau, datganiadau athrawiaethol, defodau, seremonïau a ffurfwasanaethau newydd ac i newid y rhai sy'n bodoli o bryd i'w gilydd; ac
 - (c) i ddarparu ar gyfer materion o ffydd a disgyblaeth ac i newid y rhai sy'n bodoli o bryd i'w gilydd.
- (2) Ni wneir dim a ddisgrifir yn is-adrannau (1)(b) ac (c) ond trwy'r weithdrefn berthnasol i filiau a draethir yn Rhan V, ar ôl cyflwyno'r mater i'r Corff Llywodraethol a'i gefnogi ganddo a chan fwyafrif yn Urdd yr Esgobion.
- (3) Yn ddarostyngedig i is-adran (2), nid ychwanegir at is-adrannau (1) (b) nac (c), (2) na (3) na darpariaethau adran 33, na'u newid, eu diwygio na'u diddymu, ond trwy'r weithdrefn berthnasol i filiau a draethir yn Rhan V.

Galluoedd cyffredinol

12.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i wneud rheoliadau cyffredinol ynglŷn ag ethol y Corff a chymhwyster etholwyr, a chyfansoddiadau a rheoliadau at reoli a llywodraethu'r Eglwys yn dda, ynghyd â'i heiddo a'i busnes, naill ai fel cyfangorff neu bob yn esgobaeth, gan gynnwys rheoliadau ar sut a chan bwy y gwneir penodiadau i esgobaethau cadeiriol ac i Fywoliaethau, a'r dull a'r modd y mae cyfansoddiadau a rheoliadau o'r fath i'w creu a'u gweithredu.

13.

- (1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914, bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i ddiswyddo unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol neu o Gorff y Cynrychiolwyr os bydd rheswm digonol.
- (2) Y Corff Llywodraethol fydd y beirniad terfynol ar yr hyn sy'n rheswm digonol dan yr adran hon.

Part IV: Powers

The Constitution

11.

- (1) Subject to subsections (2) and (3), the Governing Body shall have power:
- (a) to add to, alter, amend, or abrogate any of the provisions of the Constitution;
 - (b) to make new articles, doctrinal statements, rites, ceremonies and formularies and to alter those from time to time existing; and
 - (c) to make provision for matters of faith and discipline and to alter those from time to time existing.
- (2) No such action as is described in subsections (1)(b) and (c) shall be taken except by the procedure relating to bills set out in Part V, backed and introduced in the Governing Body by a majority of the Order of the Bishops.
- (3) Subject to subsection (2), subsections (1)(b) and (c), (2) and (3) and the provisions of section 33 shall only be added to, altered, amended or abrogated by the procedure relating to bills set out in Part V.

General powers

12.

The Governing Body shall have power to make general regulations for the election of the Body, and for the qualification of the electors, and constitutions and regulations for the general management and good government of the Church, and the property and affairs thereof, whether as a whole or according to dioceses, including regulations as to how and by whom appointments to diocesan bishoprics and to Benefices shall be made, and the manner and method in which such constitutions and regulations shall be created and carried out.

13.

- (1) Subject to the provisions of the Welsh Church Act 1914 the Governing Body shall have power to remove any member of the Governing Body or of the Representative Body for sufficient reason.
- (2) The Governing Body shall be the final judge of what constitutes a sufficient reason within the meaning of this section.

Materion yn ymwneud â'r Corff Llywodraethol

14.

(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 a'r Cyfansoddiad, bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i wneud rheoliadau parthed y Corff Llywodraethol ar:

- (a) ei aelodaeth;
- (b) cymhwyster ei etholwyr;
- (c) ei etholiadau;
- (d) hyd aelodaeth o'r Corff Llywodraethol;
- (e) diswyddo aelodau;
- (f) busnes a thrafodion y Corff Llywodraethol, gan gynnwys gweithdrefn i lunio rheoliadau cyffredinol dan yr adran hon;
- (g) aelodaeth, galluoedd a gweithdrefnau unrhyw bwyllgor o'r Corff Llywodraethol;
- (h) y modd y rheolir ac y llywodraethir ef;
- (i) ei eiddo a'i fusnes; ac
- (j) unrhyw daliadau at dreuliau aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd o'r Corff Llywodraethol a'i bwyllgorau.

(2) Bydd gan y Corff Llywodraethol y galluoedd atodol a chanlyniadol eraill hynny yr ymddengys iddo eu bod eu hangen arno neu y byddai'n fuddiol iddo eu cael i gyflawni ei waith.

15.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i ddarparu'r tai, swyddfeydd, adeiladau ac ystafelloedd eraill a fo'n angenrheidiol at ddibenion:

- (a) ei gyfarfodydd;
- (b) tai i'w swyddogion a'i wasanaethyddion; ac
- (c) ystafell ddogfennau neu fan ddiogel arall at gadw ei lyfrau a'i ddogfennau; ac i dalu rhent, yswiriant, a'r holl dreuliau eraill a achosir drwy ddarparu'r tai neu swyddfeydd hynny.

Matters relating to the Governing Body

14.

(1) Subject to the provisions of the Welsh Church Act 1914 and the Constitution, the Governing Body shall have power to make regulations in respect of the Governing Body for:

- (a) its composition;
- (b) the qualification of its electors;
- (c) its elections;
- (d) the duration of membership of the Governing Body;
- (e) the removal of members;
- (f) the business and proceedings of the Governing Body including the procedure for making general regulations under this section;
- (g) the composition, powers and procedures of any committee of the Governing Body;
- (h) its management and government;
- (i) its property and affairs; and
- (j) any payment of expenses incurred by members in attendance at meetings of the Governing Body and its committees.

(2) The Governing Body shall have such other supplementary and consequential powers as appear to it necessary or expedient for the purposes of carrying out its functions.

15.

The Governing Body shall have power to provide such houses, offices, and other buildings or accommodation as shall be necessary for the purposes:

- (a) of its meetings;
- (b) of providing a residence for its officers and servants; and
- (c) of providing a muniment room or other safe place of custody for its books and documents, and to pay rent, insurance, and all other expenses caused by its providing such houses or offices.

16.

(1) Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i benodi a thalu Ysgrifenyddion ac i fynd i unrhyw draul sy'n rhesymol angenrheidiol at unrhyw un o'r dibenion uchod.

(2) Fe fydd pob Ysgrifennydd Clerigol i'r Corff Llywodraethol yn Glerig yn yr Eglwys yng Nghymru, a bydd pob Ysgrifennydd Lleyg i'r Corff Llywodraethol yn Gymunwr yn yr Eglwys yng Nghymru neu mewn Eglwys sydd mewn cymundeb â hi.

17.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i wneud y rheolau sefydlog a farno'n addas ar gyfer rheoli ei weithdrefnau, ar yr amod nad yw'r rheolau hynny yn anghyson â dim a ddeddfir yma; a gall o bryd i'w gilydd ddadwneud, atal, neu newid y rheolau hynny.

18.

Bydd y Corff Llywodraethol yn penodi Pwyllgor Sefydlog o blith ei aelodau a bydd ganddo'r gallu i benodi pwyllgorau neu is-bwyllgorau eraill o blith ei aelodau fel y barno'n angenrheidiol.

19.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu unrhyw bryd i newid ei enw neu ei deitl.

Materion yn ymwneud â Chorff y Cynrychiolwyr

20.

Bydd gan y Corff Llywodraethol allu i newid nifer aelodau Corff y Cynrychiolwyr ac i wneud rheoliadau ar gyfer Corff y Cynrychiolwyr ynglŷn â:

- (a) nifer ei aelodau;
- (b) eu cymhwyster, eu hethol eu diswyddo a'u hymddeoliad;
- (c) ei alluoedd a'i ddyletswyddau;
- (d) ei weithdrefnau;

ar yr amod nad yw'r rheoliadau hynny yn gwrthdaro ag awdurdod statudol na galluoedd na dyletswyddau Corff y Cynrychiolwyr.

16.

(1) The Governing Body shall have power to appoint and pay Secretaries and to incur any expenses reasonably necessary and incidental to any of the above purposes.

(2) Any Clerical Secretary of the Governing Body shall be a Cleric in the Church in Wales, and any Lay Secretary of the Governing Body shall be a Communicant of the Church in Wales or of any Church in communion with it.

17.

The Governing Body shall have power to make such standing orders for the regulation of its procedure as it shall think fit, provided that the same are not inconsistent with anything herein enacted, and may from time to time rescind, suspend or vary the same.

18.

The Governing Body shall appoint a Standing Committee of its members and shall have power to appoint such other committees or sub-committees of its members as it considers necessary.

19.

The Governing Body shall have power at any time to change its name and title.

Matters relating to the Representative Body

20.

The Governing Body shall have power to make alterations in the number of members of the Representative Body and to make regulations in respect of the Representative Body for:

- (a) the numbers of its members;
- (b) their qualification, election, removal or retirement;
- (c) its powers and duties; and
- (d) its procedures;

provided that such regulations do not conflict with the statutory authority, powers and duties of the Representative Body.

Materion yn ymwneud â Chynhadledd yr Esgobaeth

21.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu:

- (a) i adolygu unrhyw weithred o'r eiddo Cynhadledd Esgobaeth;
- (b) i reoli, newid, diddymu, neu ddisodli unrhyw reol a wnaed gan Gynhadledd Esgobaeth hyd y bo angen (ac am hynny bydd barn y Corff Llywodraethol yn derfynol) fel na dderbynnir unrhyw egwyddor a fydd yn anfuddiol i les cyffredin yr Eglwys yng Nghymru. Ni ddilynir trefn biliau ar gyfer yr adran hon;
- (c) ar dderbyn deiseb oddi wrth o leiaf draean aelodau Cynhadledd Esgobaeth, i newid, diddymu neu ychwanegu at unrhyw un o reolau a rheoliadau Cynhadledd Esgobaeth; ac
- (d) i roi unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd i Gynhadledd Esgobaeth.

22.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i gyfeirio unrhyw gwestiwn i Gynhadledd unrhyw Esgobaeth, neu i Gynhadledd pob Esgobaeth, i'w drafod ganddynt ac i gael adroddiad arno.

23.

Gall y Corff Llywodraethol wneud Rheoliadau ar gyfer Cynhadleddau'r Esgobaethau gyda golwg ar:

- (a) yr aelodaeth glerigol;
- (b) cynnull cyfarfodydd;
- (c) eu busnes a'u gweithdrefnau.

Matters relating to Diocesan Conferences

21.

The Governing Body shall have the power:

- (a) to review any act of a Diocesan Conference;
- (b) to control, alter, repeal or supersede any regulation made by a Diocesan Conference so far as may be necessary (of which the Governing Body shall be the final judge) to provide against the admission of any principle inexpedient for the common interest of the Church in Wales. The procedure by bill shall not apply to this subsection;
- (c) upon a petition signed by not less than one-third of the members of a Diocesan Conference to alter, repeal, or add to any of the rules and regulations relating to a Diocesan Conference; and
- (d) to issue any order or direction to a Diocesan Conference.

22.

The Governing Body may refer any question to a Diocesan Conference, or the Diocesan Conferences, for their discussion and report.

23.

The Governing Body may make Regulations to make provision for Diocesan Conferences for:

- (a) the clerical membership;
- (b) the convening of meetings; and
- (c) the business and proceedings.

Galluoedd Amrywiol

24.

Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914 ac i'r Cyfansoddiad, bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i wneud Rheoliadau at y dibenion a ganlyn:

- (a) penodi i swydd yn yr Eglwys yng Nghymru na ddarperir yn benodol ar ei chyfer yn y Cyfansoddiad;
- (b) gwneud darpariaethau at Gynadleddau Deoniaethol;
- (c) gwneud darpariaethau at Weinyddu Plwyfi gyda golwg ar Gyfarfodydd Ffestri Blynyddol neu Gyfarfodydd Ffestri eraill ac ar gyfer:
 - (i) aelodaeth;
 - (ii) hyd aelodaeth;
 - (iii) diswyddo aelodau;
 - (iv) busnes a gweithdrefnau;
 - (v) cyfarfodydd; a
 - (vi) galluoedd;
- (d) gwneud darpariaethau at weinyddu plwyfi gyda golwg ar y Rhôl Etholiadol:
 - (i) paratoi, cadw a rheoli'r Rhôl;
 - (ii) ei chyhoeddi a'i harchwilio;
- (e) gwneud darpariaethau at weinyddu plwyfi gyda golwg ar Gyngorau Plwyf Eglwysig mewn perthynas â materion yn ymwneud â wardeniaid eglwys, is-wardeniaid ac ystlyswyr;
- (f) gwneud darpariaethau ynglŷn â materion plwyfol cyffredinol yn ymwneud â gweinyddu Plwyf a Grŵp o Blwyfi;
- (g) gwneud darpariaethau ynglŷn â phenodiadau ac enwebiadau ar gyfer yr hawl i goladu neu enwebu rhai i'w sefydlu i ofalaethau gwag;
- (h) gwneud darpariaethau ynglŷn ag ethol Esgob Cadeiriol ar gyfer:
 - (i) penodi Etholwyr Esgob;
 - (ii) y Coleg Ethol Esgob; a
 - (iii) phenodi Esgobion;
- (i) gwneud darpariaethau ynglŷn ag ethol Archesgob Cymru ar gyfer:
 - (i) Coleg Ethol yr Archesgob;
 - (ii) penodi'r Archesgob; a
- (j) gwneud darpariaethau ynglŷn â Phersondai.

Miscellaneous Powers

24.

Subject to the provisions of the Welsh Church Act 1914 and of the Constitution, the Governing Body shall have power to make Regulations for the following purposes:

- (a) the appointment to an office in the Church in Wales for which no specific provision is made in or under the Constitution;
- (b) to make provisions in respect of Deanery Conferences;
- (c) to make provisions for Parochial Administration in respect of Annual and other Vestry Meetings for:
 - (i) membership;
 - (ii) the duration of membership;
 - (iii) the removal of members;
 - (iv) business and procedure;
 - (v) meetings; and
 - (vi) powers;
- (d) to make provisions for Parochial Administration in respect of the Electoral Roll for:
 - (i) preparation, maintenance and management of the Roll; and
 - (ii) publication and inspection;
- (e) to make provision for Parochial Administration in respect of Parochial Church Councils and Churchwardens for matters relating to the Parochial Church Councils, churchwardens, sub-wardens and sidespersons;
- (f) to make provision for general parochial matters relating to the administration of a Parish and Grouped Parishes;
- (g) to make provisions relating to appointments and nominations for the right to collate or nominate for institution to vacant cures;
- (h) to make provisions relating to the election of the Diocesan Bishop for:
 - (i) the appointment of Episcopal Electors;
 - (ii) the Bishops' Electoral College; and
 - (iii) the appointment of Bishops;
- (i) to make provisions relating to the election of the Archbishop of Wales for:
 - (i) the Archbishop's Electoral College;
 - (ii) the appointment of the Archbishop; and
- (j) provisions relating to Parsonages.

25.

Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i orchymyn trosglwyddo unrhyw ran o unrhyw esgobaeth i esgobaeth arall sy'n bodoli ar hyn o bryd neu a grëir ar ôl hyn, a'i huno â hi, ar yr amod na bydd gorchymyn o'r fath yn ddilys hyd oni chaiff ganiatâd Cynhadledd yr esgobaeth neu Gynadleddau'r esgobaethau yr effeithir arnynt ac nas gweithredir yn ystod esgobawd Esgob yr esgobaeth honno neu Esgobion yr esgobaethau hynny heb ei ganiatâd neu eu caniatâd.

26.

(1) Bydd gan y Corff Llywodraethol y gallu i rannu esgobaeth, ar yr amod na bydd rhannu felly heb ganiatâd Cynhadledd yr Esgobaeth honno a chaniatâd Esgob yr esgobaeth.

(2) Pan rennir esgobaeth yn ystod ei esgobawd, bydd gan yr Esgob yr hawl i ddewis pa esgobaeth y bydd yn Esgob iddi.

Rhan V: Gweithdrefn Bil

Cyflwyno Bil

27.

(1) Ac eithrio yn yr achosion y darperir ar eu cyfer yn adran 11 (2), gellir cyflwyno bil gan unrhyw ddau neu fwy o aelodau'r Corff Llywodraethol neu gan Gynhadledd Esgobaethol.

(2) Gall y rhai sy'n dymuno cyflwyno bil ("y Cefnogwyr") gael cyngor a chymorth Is-bwyllgor Drafftio'r Pwyllgor Sefydlog wrth baratoi'r bil cyn ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Sefydlog yn unol ag is-adran (3).

(3) Anfonir copi o'r bil a gynigir, yn Saesneg ac yn Gymraeg, gydag enwau'r Cefnogwyr, i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol heb fod yn ddiweddarach na phedair wythnos cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog y bydd y Cefnogwyr yn bwriadu i'r bil a gynigir gael ei ystyried ynddo.

(4) Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn ystyried yn ei gyfarfod nesaf bob bil a gynigir ac a anfonwyd iddo yn unol ag is-adran (3).

(5) Os bodlonir y Pwyllgor Sefydlog bod y bil a gynigir mewn trefn, bydd yn hysbysu'r Cefnogwyr o hynny ac ar unwaith yn cyhoeddi'r bil trwy gylchredeg copi argraffedig ohono, yn Saesneg ac yn Gymraeg, gydag enwau'r Cefnogwyr wedi eu hargraffu arno, i holl aelodau'r Corff Llywodraethol ynghyd â memorandum yn egluro'r rheswm dros y bil.

(6) Oni fodlonir y Pwyllgor Sefydlog bod y bil a gynigir mewn trefn, bydd yn hysbysu'r Cefnogwyr o hynny, a gall, gyda'u cydsyniad hwy neu gydsyniad y mwyafrif ohonynt, gyfeirio'r bil a gynigir i'w Is-bwyllgor Drafftio am gyngor a chymorth pellach.

25.

The Governing Body shall have power to make an order to transfer any part of a diocese to, and unite it with, any other diocese, now existing or hereafter to be created, provided that such an order shall not be valid unless and until it is assented to by the Conference or Conferences of the diocese or dioceses thereby affected, and shall not be carried out during the episcopate of the Bishop or Bishops of such diocese or dioceses at the time the order was made, without his or their consent.

26.

(1) The Governing Body shall have power to divide a diocese provided that no such division shall be made without the consent of the Diocesan Conference of that diocese and the consent of the Bishop of that diocese.

(2) In the event of the division of a diocese during his episcopate, the Bishop shall be entitled to choose of which of the sees he shall be Bishop.

Part V: Bill Procedure

Introduction of a Bill

27.

(1) Except in the cases provided for in section 11(2), a bill may be introduced by any two or more members of the Governing Body or by a Diocesan Conference.

(2) Those desirous of introducing a bill ("the Backers") may obtain the advice and assistance of the Drafting Sub-committee of the Standing Committee in preparing the bill prior to forwarding it to the Standing Committee in accordance with subsection (3).

(3) A copy of the proposed bill, in English and Welsh, with the names of the Backers, shall be forwarded to the Secretaries of the Governing Body not later than four weeks before the meeting of the Standing Committee at which the Backers intend the proposed bill to be considered.

(4) The Standing Committee shall consider at its next meeting every proposed bill forwarded to it in accordance with subsection (3).

(5) The Standing Committee if it is satisfied that the proposed bill is in order shall so inform the Backers and forthwith publish the bill by circulating a printed copy of it, in English and Welsh, with the names of the Backers printed on it, to all members of the Governing Body, together with a memorandum explaining the reason for the bill.

(6) If the Standing Committee is not satisfied that the proposed bill is in order it shall so inform the Backers, and may, with their consent or the consent of a majority of them, refer the proposed bill to the Drafting Sub-Committee for further advice and assistance.

Cyhoeddi ac ystyried bil

28.

- (1) Wedi i fil gael ei gyhoeddi, bydd y Pwyllgor Sefydlog yn penodi Pwyllgor Dethol o aelodau'r Corff Llywodraethol i ystyried a choladu unrhyw ddiwygiadau y dymuna aelodau o'r Corff Llywodraethol eu cynnig i'r bil.
- (2) Gall y Pwyllgor Sefydlog, wedi i'r bil gael ei gyhoeddi, benderfynu ymgynghori â'r esgobaethau ynglŷn ag ef ym mha ffordd bynnag a ystyria'n briodol.
- (3) Gall unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethol gynnig gwelliant i'r bil, ar yr amod bod yr aelod yn rhoi rhybudd mewn ysgrifen o bob gwelliant o'r fath i Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol o fewn y tri mis yn dilyn yn union wedi cyhoeddi'r bil.
- (4) Gall y Pwyllgor Dethol ei hun gynnig diwygiadau i'r bil.
- (5) Bydd y Pwyllgor Dethol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Sefydlog o fewn chwe mis i'r bil gael ei gyhoeddi, ar yr amod y gall y Pwyllgor Sefydlog estyn y cyfnod a roddir i'r Pwyllgor Dethol i wneud yr adroddiad, os bydd yn penderfynu ymgynghori â'r esgobaethau yn unol ag is-adran (2).
- (6) Yn ei adroddiad, bydd y Pwyllgor Dethol yn gwneud argymhelliad ar bob gwelliant a gynigiwyd a bydd hefyd yn argymell i'r Pwyllgor Sefydlog a ddylid ystyried y bil yn un dadleuol ai peidio. Bydd yr adroddiad yn dangos unrhyw wahaniaeth barn o bwys o fewn y Pwyllgor Dethol ynglŷn â'i argymhellion.

29.

- (1) Wedi derbyn adroddiad y Pwyllgor Dethol, bydd y Pwyllgor Sefydlog ar unwaith yn peri cyhoeddi'r adroddiad i holl aelodau'r Corff Llywodraethol, a gosodir y bil i'w ystyried trwy bwyllgor yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol.
- (2) Pan fo'r Pwyllgor Sefydlog wedi derbyn argymhelliad gan y Pwyllgor Dethol nad yw bil i'w ystyried yn un dadleuol, bydd yn adrodd hynny ar unwaith i aelodau'r Corff Llywodraethol cyn dechrau'r cyfarfod y gosodwyd y bil i'w ystyried ynddo trwy bwyllgor.
- (3) Yn achos bil nad ystyria'r Pwyllgor Dethol a'r Pwyllgor Sefydlog ei fod yn un dadleuol, bydd y bil serch hynny yn mynd ymlaen i'w ystyried trwy bwyllgor os bydd i un Esgob Cadeiriol neu unrhyw ddeg aelod o'r Corff Llywodraethol ofyn am hynny drwy sefyll yn eu lle. Oni wneir cais o'r fath, pleidleisir ar unwaith ar y cynnig fod y bil i'w basio, yn unol ag adran 32 o hynyma, heb unrhyw ystyried na thrafod pellach.

Publication and consideration of a bill

28.

- (1) Upon the publication of a bill, a Select Committee of members of the Governing Body shall be appointed by the Standing Committee for the purpose of considering and collating any amendments which members of the Governing Body may wish to move to the bill.
- (2) The Standing Committee may, upon publication of a bill, decide to consult the dioceses regarding it in whatever manner it deems appropriate.
- (3) Any member of the Governing Body may move an amendment to the bill, provided that written notice of every such amendment shall be given by the member to the Secretaries of the Governing Body within the three months immediately following the publication of the bill.
- (4) The Select Committee may itself propose amendments to the bill.
- (5) The Select Committee shall submit a report to the Standing Committee within six months of the publication of the bill, provided that the Standing Committee may extend the time within which the Select Committee is to report if it decides to consult the dioceses in accordance with subsection (2).
- (6) In its report, the Select Committee shall make a recommendation on each amendment proposed, and shall also recommend to the Standing Committee whether or not the bill should be deemed non-controversial. The report shall indicate any significant difference of opinion within the Select Committee regarding its recommendations.

29.

- (1) Upon receiving the report of the Select Committee, the Standing Committee shall forthwith cause the report to be published to all members of the Governing Body and the bill shall be set down for consideration in committee at the next meeting of the Governing Body.
- (2) Where the Standing Committee has accepted a recommendation of the Select Committee that a bill should be deemed non-controversial, it shall forthwith so report to the members of the Governing Body before the commencement of the meeting at which the committee stage of the bill is to be taken.
- (3) In the case of a bill which has been deemed non-controversial by the Select Committee and the Standing Committee, the bill shall nevertheless proceed to the committee stage if one Diocesan Bishop or any ten members of the Governing Body so request by rising in their places. If no such request is made, the motion that the bill be passed shall be voted on forthwith in accordance with section 32, without any further consideration or debate.

30.

- (1) I ddiben trefn pan ystyrir bil trwy bwyllgor, bydd y Corff Llywodraethol yn penodi aelod i fod yn Gadeirydd y Pwyllgor.
- (2) Yn ystod y cyfnod pwyllgora, ni chynigir ond y gwelliannau hynny a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Dethol, ar yr amod serch hynny y gellir cynnig yn ystod y cyfnod pwyllgora:
 - (a) welliannau a gynigiwyd gan y Pwyllgor Dethol;
 - (b) welliannau yn codi o welliannau eraill a wnaed yn ystod yr un eisteddiad; a
 - (c) gwelliannau eraill y gellir eu caniatáu trwy ganiatâd arbennig Cadeirydd y Pwyllgor a'r cyfarfod.
- (3) Wedi'r cyfryw ystyriaeth trwy bwyllgor, hysbysir y bil i'r Corff Llywodraethol, a gosodir cynnig i'w drafod ar unwaith bod y bil yn cael ei basio, ar yr amod, os bydd Cadeirydd y Corff Llywodraethol yn penderfynu hynny, y gellir gosod y bil i'w drafod naill ai drannoeth neu yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol.
- (4) Pan na osodir cynnig i drafod ar unwaith bod y bil yn cael ei basio, caniateir cyfeirio'r bil i'w ystyried ymhellach gan y Pwyllgor Dethol ac i'w ystyried ymhellach trwy bwyllgor yn y Corff Llywodraethol, ar yr amod na ellir cynnig wedi hynny ond gwelliannau o dan amodau is-adrannau (2)(a), (b) ac (c).
- (5) Ystyrir bod bil yn fethiant oni chwblhawyd pwyllgora arno o fewn tair blynedd i'w gyhoeddi.

31.

Wedi cynnig bod bil yn cael ei basio ni chaniateir unrhyw welliant, a chymerir pleidleisiau pob urdd arno ar wahân, ar yr amod bob amser na fydd Urdd yr Esgobion yn pleidleisio cyn cyhoeddi pleidleisiau'r ddwy Urdd arall. Wedi cyhoeddi'r pleidleisiau, gall Urdd yr Esgobion, os barnant hynny'n addas, ymneilltuo i drafod yn gyfrinachol, a chyhoeddi canlyniad eu pleidleisio ar y cyfryw adeg yn ddiweddarach yn ystod yr eisteddiad hwnnw o'r Corff Llywodraethol ag a farnant yn addas.

32.

- (1) Os derbynnir y bil gyda mwyafrif o ddwy ran o dair o'r aelodau a fo'n bresennol ac yn pleidleisio ym mhob un o'r tair Urdd, bydd y Cadeirydd yn ei gyhoeddi'n un o ganonau'r Eglwys yng Nghymru, a bydd o hynny allan yn gyfraith yr Eglwys yng Nghymru ac yn rhwymo ei holl Aelodau hi.
- (2) Os gwrthodir bil gan ddwy o'r tair Urdd, ni chyflwynir mohono drachefn am gyfnod o dair blynedd.

30.

- (1) For the purpose of procedure under the committee stage of the bill, a member shall be appointed by the Governing Body to act as Chairman of the Committee.
- (2) At the committee stage only those amendments received by the Select Committee shall be moved, provided nevertheless that:
 - (a) amendments proposed by the Select Committee;
 - (b) amendments arising out of other amendments made during the same session; and
 - (c) such other amendments as may be allowed with special leave of the Chairman of the Committee;

may be moved at the committee stage of the bill.

- (3) After such consideration in committee, the bill shall be reported to the Governing Body and the motion that the bill be passed set down for immediate debate, provided that, if the Chairman of the Governing Body so decides, the bill shall be set down for debate either on the next day or at the next meeting of the Governing Body.
- (4) Where the motion that the bill be passed is not set down for immediate debate, it shall be permissible to refer the bill for further consideration by the Select Committee and for further consideration in committee at the Governing Body, provided that only amendments within the terms of subsections (2)(a), (b) and (c) may thereafter be moved.
- (5) A bill the committee stage of which is not completed within three years of its publication shall be deemed to have lapsed.

31.

On the motion that the bill be passed no amendment shall be allowed, and the votes of each order shall be taken thereon separately, provided always that the Order of the Bishops shall not vote until after the declaration of the votes of the other two Orders. Upon such declaration of votes the Order of the Bishops may, if they think fit, retire for private debate, and announce the result of their voting at such later time during that meeting of the Governing Body as they shall think fit.

32.

- (1) If the bill is passed by a two-thirds majority of the members present and voting of each of the three Orders, the President shall promulgate it as a canon of the Church in Wales, and it shall thenceforth be a law of the Church in Wales and binding on all its Members.
- (2) If a bill be rejected by two out of the three Orders, it shall not be introduced again for a period of three years.

Rhan VI: Cynigiadau

Darpariaethau yn ymwneud a chynigion (ar wahân i'r rhai y mae a wnelont â biliau)

33.

(1) Rhaid i bob cynnig a ddaw gerbron y Corff Llywodraethol (ac eithrio'r rhai y mae'n rhaid eu cyflwyno a'u pasio yn ôl gweithdrefn bil cyn y deuant i rym) gael ei basio gan fwyafrif o'r aelodau a fo'n bresennol ac yn pleidleisio.

(2) Gellir mesur mwyafrif o'r fath drwy arddangos dwylo, ond gellir galw am rannu'r aelodau, naill ai cyn neu wedi arddangos dwylo, trwy i un Esgob Cadeiriol neu unrhyw ddeg aelod godi yn eu lle, ac os digwydd hynny ni chyfrifir bod y cynnig wedi'i basio oni cheir cydsyniad y mwyafrif ym mhob un o'r tair Urdd, sef yr Esgobion, y Clerigion a'r Lleygion.

(3) Os bydd mwyafrif mewn dwy o'r tair Urdd o blaid y cynnig, gellir ei gyflwyno yng nghyfarfod cyffredin nesaf y Corff Llywodraethol, ac os bydd iddo'r pryd hwnnw gael cydsyniad pob aelod o Urdd yr Esgobion a fo'n bresennol ac yn pleidleisio, a hefyd ddwy ran o dair naill ai o Urdd y Clerigion neu o Urdd y Lleygwyr a fo'n bresennol ac yn pleidleisio, fe'i cyfrifir yn benderfyniad a basiwyd yn ddyladwy gan y Corff Llywodraethol.

34.

(1) Pan fo'r Corff Llywodraethol yn pasio cynnig sy'n peri bod angen diwygio'r Cyfansoddiad, cymerir yn ganiataol, oni bydd cyfarwyddyd gwahanol, bod y cynnig hwnnw yn cynnwys gorchymyn i Is-bwyllgor Drafftio'r Pwyllgor Sefydlog i baratoi'r diwygiad neu'r diwygiadau priodol i'r Cyfansoddiad.

(2) Pan ddatgenir bod cynnig a basiwyd gan y Corff Llywodraethol wedi ei wneud yn unol â'r is-adran hon, bydd cynnwys y cynnig, heb aros am unrhyw ddiwygiad i'r Cyfansoddiad a fyddai fel arall yn angenrheidiol, yn dod i rym ar unwaith, eithr dim ond hyd at gyfarfod cyffredin nesaf y Corff Llywodraethol.

(3) Pan fo'r Corff Llywodraethol yn pasio cynnig sy'n peri bod angen diwygio'r Cyfansoddiad ac y datgenir iddo gael ei wneud yn unol â'r is-adran hon, cymerir yn ganiataol fod y cynnig hwnnw yn cynnwys gorchymyn i'r Pwyllgor Sefydlog i ddod â'r diwygiad neu'r diwygiadau priodol i rym unwaith y bydd yr Is-bwyllgor Drafftio wedi eu paratoi oni bydd yr Is-bwyllgor hwnnw neu'r Pwyllgor Sefydlog yn penderfynu'n wahanol.

Part VI: Motions

Provisions relating to motions (other than those relating to bills)

33.

- (1) All motions before the Governing Body (except such as require to be introduced and enacted by bill procedure to become effective) must be passed by a majority of its members, present and voting.
- (2) Such majority may be ascertained by a show of hands of such members, but a division may be required before or after the show of hands by one Diocesan Bishop or any ten members rising in their places, and in that case the motion shall not be deemed to be passed unless it receives the assent of a majority of each of the Orders of the Bishops, the Clergy and the Laity.
- (3) If such motion obtains a majority of two of the three Orders, it may be introduced and moved at the next ordinary meeting of the Governing Body, and if it then obtains the assent of all the members of the Order of the Bishops present and voting, and of a two-thirds majority of either the Order of the Clergy or the Order of the Laity present and voting, it shall be deemed to be duly passed by the Governing Body.

34.

- (1) When a motion which will necessitate amendment of the Constitution is passed by the Governing Body, such motion, in the absence of other direction, shall be deemed to include an instruction to the Drafting Sub-Committee of the Standing Committee to prepare the appropriate amendment or amendments to the Constitution.
- (2) When a motion passed by the Governing Body is stated to be made in pursuance of this subsection, the terms of the motion, without awaiting any amendment of the Constitution which otherwise would be necessary, shall take effect forthwith, but at most only until the next ordinary meeting of the Governing Body.
- (3) When a motion which necessitates amendment of the Constitution is passed by the Governing Body and is stated to be made in pursuance of this subsection, such motion shall be deemed to include an instruction to the Standing Committee to give effect to the appropriate amendment or amendments to the Constitution once they have been prepared by the Drafting Sub-Committee unless that Sub-Committee recommends or the Standing Committee determines otherwise.

Rhan VII: Gweithdrefn i lunio Rheoliadau a dod â hwy i rym

35.

(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r adran hon, awdurdodir Pwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol i lunio a pheri dod i rym bob rheoliad y mae gan y Corff Llywodraethol y gallu i'w wneud dan y Cyfansoddiad a'r Bennod hon.

(2) Y mae galluoedd y Pwyllgor Sefydlog i wneud rheoliadau yn cynnwys galluoedd i newid, diwygio, ychwanegu at neu wneud darpariaeth newydd yn lle Rheoliadau presennol.

(3) Gall Corff y Cynrychiolwyr, neu unrhyw ddau aelod neu fwy o'r Corff Llywodraethol (y cyfeirir atynt ar ôl hyn fel "y cynigydd") gynnig Rheoliadau drafft i'r Pwyllgor Sefydlog.

(4) Bydd y cynigydd yn arwyddo'r rheoliadau drafft ac yn eu cyflwyno i Ysgrifennydd y Pwyllgor Sefydlog ynghyd â nodyn yn esbonio'r rhesymau dros y cynnig o leiaf bedair wythnos cyn y cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog y bwriada'r cynigydd iddo ystyried y rheoliadau drafft.

(5) Yn unol ag is-adran (4), gall y cynigydd gael cyngor a chymorth yr Is-bwyllgor Drafftio i baratoi'r rheoliadau drafft cyn eu cyflwyno.

(6) Os cyflwynir rheoliadau drafft yn unol ag is-adran (4), bydd y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod yn ystyried y Rheoliadau drafft ac, os derbynir egwyddor y drafft, gyda gwelliannau neu hebddynt, bydd yn cyfarwyddo'r Is-bwyllgor Drafftio i baratoi'r rheoliadau.

(7) Bydd yr Is-bwyllgor Drafftio yn cyflwyno'r rheoliadau i'r Pwyllgor Sefydlog, a all:

- (a) eu hanfon yn ôl i'r Is-bwyllgor Drafftio i'w newid ymhellach;
- (b) penderfynu argymhell i'r cyfarfod nesaf o'r Corff Llywodraethol bod y rheoliadau yn cael eu gwneud; neu
- (c) wneud y rheoliadau; os felly, bydd y Pwyllgor Sefydlog yn penderfynu dyddiad dod i rym y cyfan neu unrhyw un o'r rheoliadau, a chymhwysir is-adrannau (8), (9) and (10).

(8) Yn ei adroddiad nesaf i'r Corff Llywodraethol bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cynnwys copi o'r holl rheoliadau a wnaeth o dan is-adran (7)(c) ynghyd â memorandwm yn esbonio'r rhesymau dros y rheoliadau a'r effaith a gânt. Ni dderbynir unrhyw welliant i'r rheoliadau ac ni ellir eu diddymu y pryd hwnnw.

Part VII: Procedure for the making and bringing into force of Regulations

35.

- (1) Subject to the provisions of this section, the Standing Committee of the Governing Body is authorized to make and bring into operation all regulations which the Governing Body has the power to make under the Constitution and this Chapter.
- (2) The powers of the Standing Committee to make regulations include powers to alter, amend, add to, or make new provision in the place of, existing Regulations.
- (3) The Representative Body, or any two or more members of the Governing Body, (hereinafter referred to as "the proposer") may propose draft Regulations to the Standing Committee.
- (4) The proposer shall sign and deliver the draft regulations to the Secretary of the Standing Committee together with an explanatory note setting out the reasons for the proposal not less than four weeks before the meeting of the Standing Committee at which the proposer intends the draft regulations to be considered.
- (5) The proposer may obtain the advice and assistance of the Drafting Sub-Committee in preparing the draft regulations prior to their delivery in accordance with subsection (4).
- (6) If the draft regulations are delivered in accordance with subsection (4), the Standing Committee at its meeting shall consider the draft Regulations and if the principle of the draft is accepted, with or without amendments, shall instruct the Drafting Sub-Committee to prepare the regulations.
- (7) The Drafting Sub-Committee shall submit the regulations to the Standing Committee who may:
 - (a) remit them to the Drafting Sub-Committee for further drafting;
 - (b) decide to recommend to the Governing Body at its next meeting that the regulations be made; or
 - (c) make the regulations, in which case the Standing Committee shall decide the date of the coming into operation of all or any of the provisions of the regulations and subsections (8), (9) and (10) shall apply.
- (8) In their next report to the Governing Body the Standing Committee shall include a copy of all regulations made by them under subsection (7)(c) together with an explanatory memorandum of the reasons for and the effect of the regulations. No amendment or annulment shall be moved to such regulations at that stage.

(9) O leiaf dri mis cyn y cyfarfod o'r Corff Llywodraethol a fydd yn dilyn y cyfarfod y rhoddodd y Pwyllgor Sefydlog adroddiad iddo am wneud y rheoliadau o dan is-adran (7)(c), gall o leiaf un Esgob Cadeiriol neu o leiaf ddeg aelod o'r Corff Llywodraethol arwyddo rhybudd ysgrifenedig o gynnig i ddiwygio neu diddymu'r rheoliadau hynny. Anfonir rhybudd o'r fath at Ysgrifenyddion y Corff Llywodraethol. Gosodir pob cynnig o'r fath i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol.

(10) (a) Os rhoddir rhybudd yn unol ag is-adran (9), bydd y Rheoliadau hynny, os ydynt eisoes mewn grym, yn dal mewn grym hyd ddiwedd y drafodaeth ar y cynnig i'w diwygio neu eu diddymu.

(b) Os caiff y cynnig ei basio, yn unol ag adran 33, diwygir neu diddymir y rheoliadau hynny yn ôl y galw, ac:

(i) yn achos diddymu, ystyrir bod y rheoliadau yn ddi-rym o ddyddiad eu diddymu, ond nid effeithir ar ddilysrwydd dim a wnaed yn unol â'r rheoliadau cyn eu diddymu;

(ii) yn achos diwygio, ystyrir i'r diwygio ddod i rym ar ddyddiad diwygio'r rheoliadau, ond nid effeithir ar ddilysrwydd dim a wnaed yn unol â'r rheoliadau cyn eu diddymu.

Rhan VIII: Cyffredinol

Cadw galluoedd yr Archesgob a'r Esgobion Cadeiriol

36.

Ni chaiff dim a gynhwysir yma effeithio ar hawliau presennol Esgob Cadeiriol i benodi i unrhyw Fywoliaeth na swydd eglwysig, nac ar unrhyw hawl sydd gan yr Archesgob a'r Esgobion wedi ymgynnull mewn Synod i gadarnhau etholiad esgob, nac ar unrhyw hawl sydd gan Archesgob i gysegru Darpar-Esgob.

37.

Yn ddarostyngedig i'r Cyfansoddiad, ni chaiff yr un gweithrediad o'r eiddo'r Corff Llywodraethol ymyrryd â gwaith yr Archesgob yn arfer y galluoedd a'r swyddogaethau sy'n gynhenid i Swydd Metropolitan, nac â gwaith yr Esgobion Cadeiriol yn arfer y galluoedd a'r swyddogaethau sy'n gynhenid i Swydd Esgob.

(9) Not less than three months before the next meeting of the Governing Body following the meeting at which the report of the making of the regulations under subsection (7)(c) by the Standing Committee was given, written notice of a motion to amend or annul such regulations may be signed by at least one Diocesan Bishop or at least ten members of the Governing Body. Such notice shall be delivered to the Secretaries of the Governing Body. Any such motion shall be set down for debate at the next meeting of the Governing Body.

- (10) (a) If notice is given in accordance with subsection (9), such Regulations, if they are already in force, shall continue in force until the conclusion of the debate on the motion to amend or to annul.
- (b) If, in accordance with section 33, the motion is passed, such regulations shall be amended or annulled as the case may be, and:
- (i) in the case of annulment the regulations shall be deemed to have no effect from the date of their annulment, but this shall be without prejudice to the validity of anything which has been carried out in accordance with the regulations prior to their annulment;
 - (ii) in the case of amendment, the amendment shall be deemed to have taken effect from the date of such amendment of the regulations and shall be without prejudice to the validity of anything which has been carried out in accordance with the regulations prior to their amendment.

Part VIII: General

Saving of powers of the Archbishop and Diocesan Bishops

36.

Nothing herein shall affect the rights at present existing in a Diocesan Bishop in respect of institution to any Benefice or ecclesiastical office, or any right of the Archbishop and Bishops assembled in Synod in reference to the confirmation of, or any right of the Archbishop in reference to the consecration of a Bishop-Elect.

37.

Subject to the Constitution, no proceeding of the Governing Body shall interfere with the exercise by the Archbishop of the powers and functions inherent in the Office of Metropolitan, nor with the exercise by the Diocesan Bishops of the powers and functions inherent in the Episcopal Office.

